# Rhaglen Gwirfoddolwyr

Ebrill i Fedi 2014

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych



# Croeso

Mae yna ystod o gyfleoedd i chi gymryd rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych – ac mae arnom angen eich help! O'r Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd ar hyd Fryniau Clwyd i Hiraethog a Dyffryn Dyfrdwy yn y de – gallwch ymuno'n achlysurol neu bob wythnos – chi piau'r dewis.

Bydd tasgau'n amrywio o blannu coed i godi waliau cerrig sychion, adeiladu llwybrau i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Nid oes angen profiad blaenorol – fe roddir hyfforddiant ac mae croeso i chi weithio'n ôl eich cyflymder eich hun.

**I gael hwn mewn fersiynau Braille, print mawr neu dâp ffoniwch am ddim ar 0800 243980**

I wybod mwy am ein digwyddiadau diweddaraf, cliciwch i ddweud eich bod yn hoffi tudalen Facebook AHNE Bryniau Clwyd a Chefn Gwlad Sir Ddinbych

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

- Parc Gwledig Loggerheads 01352 810614
- Gogledd Sir Ddinbych (Y Rhyl) 01745 356197
- De Sir Ddinbych (Llangollen) 01978 869618

**Cyngor Iechyd a Diogelwch**

Fe wnaiff y Gwasanaeth Cefn Gwlad ddarparu'r holl ddillad diogelwch sy'n angenrheidiol. Cofiwch wisgo esgidiau cryfion efo gafael da arnyn nhw, cymeradwyir esgidiau mawr efo trwynau esgid dur ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Dewch â dillad rhag glaw efo chi a chinio pecyn. Mae'n rhaid i rai dan 14 oed fod gyda rhiant/gwarcheidwad. Yn anffodus ni allwn weithio efo plant sydd o dan 8 oed.

www.ahnebryniauclwyd.org.uk
www.cefngwladsirddinbych.org.uk

Printiwyd gyda inciau llysieuol ar bapur sydd wedi'i ddefnyddio'n barod, wedi'i ailgylchu a heb ei gannu.

Mae'r Rhaglen Gwirfoddolwyr yma wedi ei gyflwyno i John Hollingsworth, gwirfoddolwr a ffrind o'r Gwasanaeth Cefn Gwlad



# Ebrill

**Dydd Mercher 2 Ebrill, 10am – 3pm**
**Cadw ar Ben Pethau**
Gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwneud gwelliannau ar lwybrau yn y coetir ac ar y bryn.
Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi'r Bryniau (SJ 071 821)

**Dydd Gwener 4 Ebrill, 10am – 1pm**
**Gwella'r Mynedfa**
Helpwch ni reoli y coed cyll ar hyd yr hen reilffordd.
Cyfarfod ym Mryn Stanley, oddi ar fynedfa Lôn Llewellyn i Ben Coed, Dinbych (SJ 047 658)

**Dydd Mawrth 8 Ebrill 10am – 3pm**
**Gwelliannau i Fynediad**
Mae angen help i wella'r mynediad i gerddwyr i faes parcio Loggerheads.
Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mercher 9 Ebrill, 10am – 3pm**
**Rhostir Llawn Bywyd**
Cynnal a chadw'r safle, gwella'r trothwyon a'r isadeiledd o gwmpas Gwarchodfa Natur Moel Findeg.
Cyfarfod yn y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol rhwng pentref Maeshafn ac adeilad yr hen hostel ieuenctid (SJ 205 608)

**Dydd Iau 10 Ebrill -**
**Dydd Gwener 11 Ebrill, 10am – 3pm**
**Llwybr Bordiau yr Empire**
Mae'r difrod o ganlyniad i'r storm ddiweddar wedi tynnu ein sylw at yr angen i atgyweirio'r llwybr bordiau, felly dyma gyfle i helpu ac adeiladu'r strwythurau pren pwysig.
Cyfarfod wrth giât y fynedfa i Wersyll Gwyliau Presthaven

**Dydd Mercher 16 Ebrill 10am – 3pm**
**Coed Moel Famau**
Helpwch gyda'r gwaith da a wneir yn barhaus i wella ardal y Goedfa.
Cyfarfod yng Nghoed Moel Famau (SJ 174 613)

**Dydd Mercher 16 Ebrill, 10am – 3pm**
**Cadw ar Ben Pethau**
Gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwneud gwelliannau ar lwybrau yn y coetir ac ar y bryn.
Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi'r Bryniau (SJ 071 821)

**Dydd Mercher 16 Ebrill a**
**Dydd Iau 17 Ebrill, 10am – 3pm**
**Coedlannu'r Llwybr**
Helpwch ni goedlannu'r cyll ar hyd yr hen reilffordd, dyma waith a wnawn ar sail rota.
Cyfarfod ym maes parcio llwybr Prestatyn-Dyserth, Dyserth (SJ 062792)

**Dydd Mawrth 22 Ebrill, 10am – 3pm**
**Atgyweirio Ffensys**
Dewch i roi help llaw i atgyweirio'r ffensys ar Lwybr Glan yr Afon lle byddwn yn defnyddio coed a fuom yn eu coedlannu yn y gaeaf.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mercher 23 Ebrill, 10am – 3pm**
**Rhostir Llawn Bywyd**
Cynnal a chadw'r safle, gwella'r trothwyon a'r isadeiledd o gwmpas Gwarchodfa Natur Moel Findeg.
Cyfarfod yn y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol rhwng pentref Maeshafn ac adeilad yr hen hostel ieuenctid (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 23 Ebrill a**
**Dydd Iau 24 Ebrill, 10am – 3pm**
**Cynnal a chadw llwybrau troed**
Beth am ddod draw i'n helpu ni wella'r llwybr ym Mhen y Pigyn?
Byddwn yn gosod cyfres o ddraeniau cerrig newydd i wella cyflwr y llwybr wrth iddo ymdroelli i'r olygfan.
Cyfarfod yn y prif faes parcio, Corwen 10am

**Dydd Mawrth 29 Ebrill, 10am – 3pm**
**Perthi Meirw**
Mae'n amser i dynnu'r hen gloddiau ac ychwanegu at y ffensiau pleth o amgylch y byrddau picnic.
Cyfarfod ym maes parcio Gwarchodfa Natur Rhuddlan, oddi ar Ffordd yr Orsaf (SJ 020778)

# Mai

Mai

**Dydd Mawrth 6, 10am – 3pm**
**Tacluso**
Rhowch help llaw i ni dacluso'r Parc yn barod at yr haf prysur o'n blaenau.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mawrth 6 Mai - dydd Iau 8 Mai 10am – 3pm**
**Paratoi'r Gronant**
Cynhelir y digwyddiad blynyddol ar y twyni yn yr haf, lle gosodir ffens 2km o hyd yn ogystal â 2km o ffens drydan mewn wythnos! Gronant yw'r unig le yng Nghymru sy'n gartref i nythfa o fôr-wenoliaid felly byddem yn ddiolchgar iawn o'ch help i ofalu am yr aderyn môr hynod o brin hwn sydd prin dafliad carreg i ffwrdd o Brestatyn.
Cyfarfod yn Nhwyni'r Gronant, wrth giât y fynedfa gyferbyn â Pharc Gwyliau Presthaven (SJ 089841)

**Dydd Mercher 7 Mai, 10am – 3pm**
**Rhostir Llawn Bywyd**
Cael gwared ar blanhigion ymledol o'r rhostir, trwsio ffensys, gwelliannau i lwybrau troed.
Cyfarfod yn y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol rhwng pentref Maeshafn ac adeilad yr hen hostel ieuenctid (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 14 Mai, 10am – 3pm**
**Cadw ar Ben Pethau**
Gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwneud gwelliannau ar lwybrau yn y coetir ac ar y bryn.
Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi'r Bryniau (SJ 071 821)

**Dydd Mercher 14 Mai, dydd Iau 15 Mai, a dydd Gwener 16 Mai 10am – 3pm**
Codi Waliau Cerrig Sych
Dewch i ddysgu'r sgil o godi waliau cerrig sych. Darperir hyfforddiant llawn gan hyfforddwr codi waliau cerrig cymwys.
Cyfarfod ym Maes Parcio Canolfan Hamdden Corwen, LL21 9RW

**Dydd Iau 15 Mai, 10am – 3pm**
**Bwthyn a Thir y Bugail**
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Parhau â'r gwaith gwych a wnaed o wella'r perl hanesyddol hwn yng nghanol y goedwig. Rydym angen parhau â'r gwaith o glirio o amgylch y bwthyn yn barod i blastro'r sylfaeni â chalchfaen ac i gael gwared ar y prysg o'r ddôl sy'n llawn blodau gwyllt.
Cyfarfod yng Nghoed Nercwys, yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 593)

**Dydd Gwener 16 Mai, 10am – 1pm**
**Ffensys plethwaith**
Ar ôl egwyl o Pen Coed rydym yn dychwelyd i adnewyddu'r ffensys plethwaith.
Cyfarfod ym Mryn Stanley, oddi ar fynedfa Lôn Llewellyn i Ben Coed, Dinbych
(SJ 047 658)

**Dydd Mawrth 20 Mai, 10am – 3pm**
**Atgyweirio Ffensys**
Dewch i roi help llaw i atgyweirio'r ffensys ar Lwybr Glan yr Afon lle byddwn yn defnyddio coed a fuom yn eu coedlannu yn y gaeaf.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mercher 21 Mai, 10am – 3pm**
**Atgyweirio llwybrau**
Ymunwch â ni i wneud rhai atgyweiriadau hanfodol ar lwybrau dôl hyfryd Coed Hyrddyn – lle byddwn yn ceisio lefelu llawer o'r llwybrau.
Gwyrdd Llantysilio to Maes Llantysilio, am 10am.
(SJ 064 424)

**Dydd Mercher 21 Mai, 10am – 3pm**
**Moel Famau**
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Dewch i'n helpu i gynnal edrychiad eithriadol Parc Gwledig Moel Famau cyn i'r tymor brysuro.
Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 174 613)

**Dydd Gwener 23 Mai, 10am – 2pm**
**Tocio Coed a Chreu Pwll Newydd**
Dewch i helpu i docio'r coed a gafodd eu plannu gan yr ysgol leol ar ymyl Pen Coed. Bydd y coed yn gysgod dros y pwll newydd.
Cyfarfod ym Mryn Stanley, oddi ar fynedfa Lôn Llewellyn i Ben Coed, Dinbych
(SJ 047 658)

**Dydd Mercher 28 Mai, 10am – 3pm**
**Rhostir Llawn Bywyd**
Cael gwared ar blanhigion ymledol o'r rhostir, trwsio ffensys, gwelliannau i lwybrau troed.
Cyfarfod yn y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol rhwng pentref Maeshafn ac adeilad yr hen hostel ieuenctid (SJ 205 608)



# Mehefin

Dydd Mawrth 3 Mehefin, 10am – 3pm
Gwaith Llwybr
Mae angen help i atgyweirio'r grisiau a ddefnyddir yn aml yng nghefn y Felin.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

Dydd Mercher 4 Mehefin, 10am – 3pm
Cadw ar Ben Pethau
Gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwneud gwelliannau ar lwybrau yn y coetir ac ar y bryn.
Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi'r Bryniau (SJ 071 821)

Dydd Iau 5 Mehefin a dydd Gwener 6 Mehefin, 10am – 3pm
Codi Pont
Mae angen disdoli dwy bont yn Brickfields felly dewch i'n helpu i adeiladu rhai newydd. Bydd hefyd yn gyfle da i weld llygoden y ddŵr tra rydym yn gweithio!
Cyfarfod yn swyddfa Pwll Brickfields, Y Rhyl (SJ 013 804)

Dydd Mawrth 10 Mehefin a dydd Mercher 11 Mehefin, 10am – 3pm
Llwyfan i Drochi yn y Pwll
Helpu i adeiladu llwyfan i drochi yn y pwll yng Ngwarchodfa Natur Rhuddlan. Mae angen llwyfan ychwanegol yn y safle boblogaidd i roi mynediad i ymwelwyr llai at y dŵr.
Cyfarfod ym Maes Parcio Gwarchodfa Natur Rhuddlan (SJ 020 777)

Dydd Mercher 11 Mehefin, 10am – 3pm
Rhostir Llawn Bywyd
Cael gwared ar blanhigion ymledol o'r rhostir, trwsio ffensys, gwelliannau i lwybrau troed.
Cyfarfod yn y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol rhwng pentref Maeshafn ac adeilad yr hen hostel ieuenctid (SJ 205 608)

Dydd Mawrth 17 Mehefin, 10am – 3pm
Difa'r Ffromlys Chwarennog
Helpwch ni i gael gwared ar y Ffromlys Chwarennog o lannau'r afon fel bod planhigion eraill mwy bregus yn gallu ffynnu! Mae esgidiau glaw yn hanfodol!
Cyfarfod yn Loggerheads.

Dydd Mercher 18 Mehefin, 10am – 3pm
Atgyweirio llwybr Dinas Brân
Mae angen eich help i sortio ardaloedd mwdlyd ar lwybr isaf Dinas Brân a bydd angen gwneud gwelliannau draenio.
Cwrdd am 10am ym maes parcio Stryd y Farchnad, Llangollen er mwyn cael eich cludo yno (peidiwch â Thalu ac Arddangos, byddwn yn dyrannu trwyddedau ar eich cyfer)

Dydd Mercher 18 Mehefin, 10am – 3pm
Bwthyn a Thir y Bugail
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Parhau â'r gwaith gwych a wnaed o wella'r perl hanesyddol hwn yng nghanol y goedwig. Rydym angen parhau â'r gwaith o glirio o amgylch y bwthyn yn barod i blastro'r sylfaeni â chalchfaen ac i gael gwared ar y prysg o'r ddôl llawn blodau gwyllt.
Cyfarfod yng Nghoed Nercwys, yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 593)



# Mehefin



Dydd Mawrth 24 Mehefin, 10am – 3pm
Pladuro
Mae pladuro yn ffordd draddodiadol wych o gynnal dolydd, sy'n nodwedd yr ydym yn ei wella yn Rhuddlan. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei arwain gan yr arbenigwr lleol Sion Jinkinson.
Cyfarfod ym maes parcio Gwarchodfa Natur Rhuddlan, oddi ar Ffordd yr Orsaf (SJ 020778)
Archebu yn hanfodol - Cysylltwch â Pharc Gwledig Loggerheads i gadw lle ar 01352 810 614 Uchafswm 10 o bobl

Dydd Mercher 25 Mehefin, 10am – 3pm
Codi Waliau Cerrig Sych
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Mae angen cymorth i barhau i ail-adeiladu wal derfyn y plwyf hanesyddol ar Foel Famau. Dewch draw i ddysgu neu wella eich techneg o godi waliau cerrig sych gyda hyfforddwr profiadol.
Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 174 613)

# Gorffennaf

**Dydd Mercher 2 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Coed Moel Famau**
**Helpwch gyda'r gwaith o wella ardal y Goedfa.**
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Cyfarfod yng Nghoed Moel Famau
(SJ 174 613)

**Dydd Mercher 2 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y safle,**
gwneud gwelliannau ar lwybrau troed yn y coetir ac ar y bryn.
Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi'r Bryniau (SJ 071 821)

**Dydd Gwener 4 Gorffennaf, 10am – 4pm**
**Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – Yr Ymosodiad!**
Helpu i gael gwared ar y Ffromlys Chwarennog ar hyd llwybr yr Afon Dyfrdwy.
Cyfarfod ym maes parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Green Lane, Corwen
(SJ 079 437)

**Dydd Gwener 4 Gorffennaf, 10am – 1pm**
**Gwaith Mynediad**
Dewch i helpu i wella'r llwybr i'r olygfan a'i gadw'n hygyrch i bawb.
Cyfarfod ym Mryn Stanley, oddi ar fynedfa Lôn Llewellyn i Ben Coed, Dinbych
(SJ 047 658)

**Dydd Mawrth 8 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Clirio Rhedyn**
Dewch i'n helpu i gael gwared ar redyn wedi tyfu'n wyllt ar y glaswelltir rhyngwladol bwysig yn Loggerheads.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mercher 9 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Tacluso Rhandiroedd**
Treuliwch ddiwrnod yn helpu i dacluso bonciau a rhannau eraill o randir cymunedol Prestatyn.
Cyfarfod wrth y fynedfa i Goed Y Morfa, Prestatyn

**Dydd Gwener 11 Gorffennaf, 10am – 4pm**
**Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – Yr Ymosodiad!**
**Gro Isa**
Mwy o Ffromlys Chwarennog. Mwy o Waldio! Ar lan yr afon yng Ngro Isa, Corwen.
Cyfarfod ym maes parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Green Lane, Corwen
(SJ 079 437)

**Dydd Mercher 16 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Rhostir Llawn Bywyd**
Cael gwared ar blanhigion ymledol o'r rhostir, trwsio ffensys, gwelliannau i lwybrau troed.
Cyfarfod yn y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol rhwng pentref Maeshafn ac adeilad yr hen hostel ieuenctid (SJ 205 608)

**Dydd Iau 17 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Wal Derfyn y Goedwig**
**Helpu i ailadeiladu hen wal derfyn y goedwig yng Nghoed Nercwys.**
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Cyfarfod yng Nghoed Nercwys, yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 593)

**Dydd Gwener 18 Gorffennaf, 10am – 4pm**
**Diwrnod Mawr y Dyfrdwy – Yr Ymosodiad!**
**Dol Afon**
Mwy o Ffromlys Chwarennog. Mwy o Waldio! Ar lan yr afon yn Nol Afon, Corwen.
Cyfarfod yn y prif faes parcio yng Nghorwen am 10am

**Dydd Mawrth 22 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Clirio llwybr**
Rhoi help llaw i dorri'r mieri ar y llwybrau a ddefnyddir amlaf o gwmpas Loggerheads.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mercher 23 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Gwaith yn y Goedwig**
Helpwch i docio'r blagur ar y coed a gafodd eu plannu 8 mlynedd yn ôl.
Cyfarfod yng Nghoed y Morfa, Lôn Goed, Prestatyn (SJ 058 823)

# Gorffennaf

**Dydd Mawrth 29 Gorffennaf, dydd Mercher 30 Gorffennaf a dydd Gwener 1 Awst 10am – 4pm**
**Gwneud Golosg**
Rhowch gynnig ar wneud golosg traddodiadol, golosg am ddim i bawb sy'n cymryd rhan!
Dydd Mawrth - llenwi'r odyn, dydd Mercher - goleuo a llosgi, dydd Gwener – rhoi'r golosg mewn bagiau.
Cyfarfod yn Gipsy Lane, parcio yng Nghanolfan Gymunedol Trefor, LL20 7UD

**Dydd Mercher 30 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Clogwyn Cilcain**
Gwisgwch eich esgidiau cerdded gorau a cherdded i fyny Clogwyn Cilcain i wneud y gwaith cynnal a chadw blynyddol yn ogystal ag atgyweirio'r rhan mwyaf serth o'r llwybr poblogaidd hwn at Foel Famau.
Cyfarfod yng Ngorsaf Bwmpio Cilcain
(SJ 172 647)

**Dydd Mercher 30 Gorffennaf, 10am – 3pm**
**Pladuro**
Dyma ffordd o gyflwyno dull newydd o gynnal y ddôl yn y warchodfa hwn yn Rhuthun. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei arwain gan yr arbenigwr lleol Sion Jinkinson.
Cyfarfod yng Ngwarchodfa Glasdir, Rhuthun wrth y gilfan oddi ar Ffordd Rhuthun
(SJ 118590)
Archebu yn hanfodol - Cysylltwch â Pharc Gwledig Loggerheads i gadw lle ar 01352 810 614 Uchafswm 10 o bobl



# Awst

**Dydd Gwener 1 Awst, 10am – 1pm**
**Cynnal a chadw llwybrau**
Helpwch i glirio'r mieri ar hyd llwybrau Pen Coed fel eu bod yn hawdd i'w defnyddio.
Cyfarfod ym Mryn Stanley, oddi ar fynedfa Lôn Llewellyn i Ben Coed, Dinbych
(SJ 047 658)

**Dydd Iau 7 Awst, 10am – 3pm**
**Rheoli'r Garnedd Felen, Gipsy Lane**
Mae angen help i reoli clystyrau o'r garnedd felen sy'n tyfu ar hen reilffordd sy'n agos i dir amaethyddol.
Parciwch eich car yng Nghanolfan Gymunedol Trefor, LL20 7UD

**Dydd Mercher 13 Awst, 10am – 3pm**
**Codi Waliau Cerrig Sych**
Mae angen cymorth i ail-adeiladu wal derfyn ar Foel Famau.
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Dewch draw i ddysgu neu wella eich techneg gyda hyfforddwr profiadol.
Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras
(SJ 174 613)

**Dydd Iau 14 Awst, 10am – 3pm**
**Clirio'r Clawdd**
Mae angen cymorth i glirio'r ffosydd draenio ger Llwybr Clawdd Offa wrth i'r llwybr groesi'r rhostir trawiadol yn Cyrn y Brain – cludiant ar gael o Faes Parcio Stryd y Farchnad am 9.30am, neu gellir ein cyfarfod am 10am ar y safle lle mae Llwybr Clawdd Offa yn gadael ffordd 'World's End
(SJ 234 495)

**Dydd Iau 14 Awst, 10am – 3pm**
**Cynnal a Chadw'r gamlas**
Helpwch ar safle Cadwraeth a physgota newydd. Mae Camlas y Rhyl wedi'i drawsnewid yn gorff o ddŵr sy'n ddelfrydol ar gyfer bywyd gwyllt, felly helpwch ni glirio rhai ardaloedd ac i agor y golygfannau ar hyd y glannau.

**Dydd Mawrth 19 Awst, 10am – 3pm**
**Gwelliannau Draenio**
Rhowch help llaw i wella'r draeniad o amgylch y parc.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Iau 21 Awst, 10am – 3pm**
**Tarren yr Eglwyseg**
Dewch i helpu gyda'r gwaith cynnal a chadw blynyddol ar hyd Llwybr Clawdd Offa wrth iddo groesi ar hyd darren yr Eglwyseg - y rhan mwyaf dramatig o'r holl Lwybr Cenedlaethol.
Cwrdd am 10am ym maes parcio Stryd y Farchnad, Llangollen er mwyn cael eich cludo yno (peidiwch â Thalu ac Arddangos, byddwn yn dyrannu trwyddedau ar eich cyfer)

**Dydd Mawrth 26 Awst, 10am – 3pm**
**Cynnal a Chadw Coed**
Helpwch i docio'r coed a blanwyd yng ngwarchodfa Rhuddlan yn 2010.
Cyfarfod ym maes parcio Gwarchodfa Natur Rhuddlan, oddi ar Ffordd yr Orsaf
(SJ 020778)

# Medi

**Dydd Mawrth 2 Medi, 10am – 3pm**
**Clirio Prysgwydd**
Mae gan Loggerheads amrywiaeth o wahanol gynefinoedd sy'n ei wneud yn le hynod o arbennig. Helpwch ni warchod y cynefin bregus trwy gael gwared ar brysgwydd ar y palmant calchfaen.
Cwrdd ym Mharc Gwledig Loggerheads

**Dydd Mercher 10 Medi, 10am – 3pm**
**Wal Derfyn y Goedwig**
Helpwch ni ailadeiladu hen wal derfyn y goedwig yng Nghoed Nercwys.
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Cyfarfod yng Nghoed Nercwys, yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 593)

**Dydd Mercher 17 Medi, 10am – 3pm**
**Gwelliannau i Fynediad**
Helpwch ni gael y lle'n barod i blygu rhagor o wrychoedd trwy glirio'r llwybrau yng nghoetir Parc Bruton.
Cyfarfod yn Tarquin Drive, oddi ar Ffordd Bryn Cwnin yn y Rhyl (SJ 027 801)

**Dydd Mercher 18 Medi, 10am – 3pm**
**Llangwyfan - Tacluso**
Helpwch ni dacluso'r safle hwn ar ôl misoedd prysur yr haf.
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Cyfarfod yng Nghoed Llangwyfan, yn y maes parcio top (SJ 138 669)

**Dydd Mercher 24 Medi, 10am – 3pm**
**Gwaith Ffos**
Helpwch ni wella'r lle ar gyfer llygoden y dŵr trwy wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y ffosydd.
Cyfarfod yn swyddfa Pwll Brickfields, Y Rhyl
(SJ 013 804)

